
# Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015

## Safon Uwch Iechyd a Gofal Cymdeithasol

cbac
wjec




**Yr hyn a ddywed Llywodraeth Cymru am y Ddeddf**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol yn rhoi’r uchelgais, caniatâd a rhwymedigaeth gyfreithiol i wella ein llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd. Mae’r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol yn ei wneud hi’n ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, i weithio’n well gyda phobl, cymunedau a’i gilydd, ac i atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd. Mae’r Ddeddf yn unigryw i Gymru ac yn denu diddordeb o wledydd ar draws y byd, gan ei bod yn cynnig cyfle gwych i wneud newid hirbarhaol, positif i genedlaethau’r presennol a’r dyfodol.

**Beth yw diben y Ddeddf?**

- Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ddeddfwriaeth bwysig i Gymru. Prif ddiben y Ddeddf hon yw sicrhau bod Cymru fel cenedl yn barod ar gyfer heriau’r dyfodol a allai effeithio ar ein bywydau bob dydd.
- Nod y Ddeddf yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.
- Bydd y Ddeddf yn sicrhau bod cyrff cyhoeddus e.e. Cyfoeth Naturiol Cymru, Byrddau Iechyd Lleol, Awdurdodau Lleol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio gyda’i gilydd a chyda’r gymuned i atal problemau a allai ddigwydd yn y dyfodol. Bydd hyn o fudd i bobl Cymru nawr ac yn y dyfodol.
- Mae’r Ddeddf hon yn sicrhau nad yw cyrff cyhoeddus yn canolbwyntio ar atebion byrdymor i anghenion presennol, a’u bod yn ystyriol o anghenion cenedlaethau’r dyfodol.

**Beth yw’r nodau llesiant?**

Mae saith nod llesiant. Mae’r nodau hyn yn rhoi nod a rennir i gyrff cyhoeddus a diben y gallant weithio tuag ato a fydd, yn y pen draw, yn helpu i ddiogelu dyfodol y genedl. Y saith nod llesiant yw:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy’n fwy cyfartal
- Cymru â chymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

**Beth yw’r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy?**

Mae’r egwyddor hon yn dangos sut y bydd cyrff cyhoeddus yn cyflawni’r nodau a’r camau gweithredu yn y Ddeddf. Y pum agwedd sy’n sail i’r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy yw:

- Meddwl yn hirdymor, Atal, Integreiddio, Cydweithio a Chynnwys.